Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

3 Hydref 2022

Annwyl Lywydd,

**Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)**

Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth heddiw gyda Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, rydym yn parhau i fod yn ansicr ynghylch y rhesymau dros y penderfyniad i fabwysiadu gweithdrefn gyflym yn y Senedd ar gyfer ystyried Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru). Ni allai'r Gweinidog ei hun ddweud wrthym ba resymau a roddwyd i'r Pwyllgor Busnes gan Lywodraeth Cymru.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor Busnes ein hysbysu o resymau Llywodraeth Cymru dros geisio proses gyflym ar 12 Gorffennaf, 20 a 27 Medi 2022, a rhesymau'r Pwyllgor Busnes dros benderfynu o blaid proses gyflym.

Ar bwynt cysylltiedig, byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallem gael copi o adroddiad y Pwyllgor Busnes, mewn perthynas ag ystyried y Bil, o dan Reol Sefydlog 26.10A.

Rydym hefyd yn nodi'r llythyr gan Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 23 Medi 2022 ,a byddem yn croesawu cael copi o ymateb y Pwyllgor Busnes.

Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth hon erbyn dydd Iau 7 Hydref fel y gall ein hadroddiad adlewyrchu'r materion yn llaw mewn pryd iddo gael ei osod gerbron y Senedd ar gyfer dadl Cyfnod 1 ar 11 Hydref.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd